

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mawrth, 27 Medi 2011

Amser y cyfarfod:
13:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Agenda

(17) v3

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)

[Gweld y cwestiynau](#)

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)

4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Flaenau Gwent (45 munud)

5. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty: Cydraddoldebau (45 munud)

6. Dadl ar Ddiwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (60 munud)

NDM4807 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i hagenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Dileu "Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i hagenda"

a rhoi yn ei le

“Yn nodi agenda Llywodraeth Cymru”

Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth ddiffyg tryloywder cyhoeddiadau blaenorol Llywodraeth Cymru am ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddadansoddiad wedi'i gostio'n llawn o agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus mewn modd sy'n dod â'r trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus ynghyd, gyda'r dinesydd a'r gymuned yn y canol, gan ymateb i anghenion y cyhoedd a gan leihau'r galw ar wasanaethau eraill drwy ddull gweithredu sy'n edrych ar y gwasanaeth cyfan a chyd-gynhyrchu.

Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus gael ffocws clir ar leihau'r bwlch gwariant ar ysgolion rhwng Cymru a Lloegr.

Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder ddull gweithredu anghyson Llywodraeth Cymru o ran cydweithio wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus wedi cael ei gwneud yn glir ac yn credu y dylai ganolbwyntio ar

ganlyniadau yn hytrach nag ar y broses o ddiwygio.

Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyllid teg er mwyn gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol.

Dogfennau Ategol:

[Datganiad ar lafar gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 21 Mehefin 2011](#)

[Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 13 Gorffennaf 2011](#)

Cyfnod Pleidleisio

Daeth y cyfarfod i ben am

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mercher, 28 Medi 2011